VOSA

Asiantaeth Gwasanaethau
Cerbydau a Gweithredwyr

A hoffech chi fod yn brofwr MOT?

MOT

Asiantaeth weithredol o'r Adran Drafnidiaeth

Achub bywydau, ffyrdd mwy diogel, lleihau troseddu, amddiffyn yr amgylchedd

A hoffech chi fod yn brofwr MOT?

Mae angen i chi fodloni'r gofynion canlynol:

1. Rhaid i chi gael eich enwebu gan yr Arholwr Awdurdodedig mewn gorsaf brofi cerbydau.
2. Mae gennych drwydded yrru lawn ar gyfer y dosbarthiadau o gerbyd rydych am gynnal prawf MOT arnynt.
3. Rydych yn fecanig medrus gydag o leiaf 4 blynedd o weithio'n llawn amser yn gwasanaethu ac yn trwsio'r mathau o gerbydau a gaiff eu profi.
4. Nid oes gennych unrhyw euogfarnau sydd heb ddarfod am droseddau'n ymwneud â'r Cynllun Profi Cerbydau na'r diwydiant moduro, neu am weithredoedd treisgar neu fygythiol.
5. Rydych yn berson o gymeriad da.
6. Ar gyfer dosbarthiadau 3, 4, 5 neu 7, rydych wedi pasio'r arholiad Asesu NTT neu'n meddu ar un o'r cymwysterau cerbydau canlynol:

   a. Achrediad Technegydd Modurol (ATA), ATA Cerbydau Ysgafn, Technegydd Diagnostig (rhaid bod y cerdyn ATA yn ddilys)

   b. Tystysgrif Crefft Genedlaethol yn arbenigo mewn Cynnal a Chadw Cerbydau a Systemau Electronig.

   c. City and Guilds
   1. Cymhwyster Modurol NVQ lefel 3
   2. Atgyweirio a Gwasanaethu Cerbydau Ffordd, 383 - lefel 2 neu 3 llawn
   3. Astudiaethau Crefft Cerbydau Modur, Modiwlaidd - rhan 3 (gofyn am 3 modiwl)
   4. Astudiaethau Crefft Cerbydau Modur, 381 - rhan 2 neu 3 llawn
   5. Astudiaethau Crefft Cerbydau Modur (maes llafur cyn 381) - rhan 2 llawn
   6. Astudiaethau Crefft Mecaneg Cerbydau Ysgafn neu Drwm - rhan 2 neu 3 llawn
   7. Tystysgrif Technegydd Cerbydau Modur - rhan 1 llawn

d. BTEC, Astudiaethau Peirianneg Cerbydau Modur, Tystysgrif Genedlaethol neu ONC.

e. Tystysgrif Genedlaethol Cyngor Addysg Alwedigaethol yr Alban mewn Systemau a Mecaneg Cerbydau, rhan 3.

f. VRQ, NVQ neu SVQ
1. Systemau Electroneg a Mecanyddol, Cynnal a Chadw ac Atgyweirio Cerbydau Ysgafn neu Drwm lefel 3.
2. Technegydd Cerbydau – Cynnal a Chadw ac Atgyweirio Cerbydau Ysgafn neu Drwm lefel 3.

g. Sefydliad y Diwydiant Moduron (IMI), Diploma Cenedlaethol Lefel IMI mewn Cynnal a Chadw ac Atgyweirio Cerbydau (Ysgafn / Trwm) VRQ (Lefel 3).

Os oes gennych gymwysterau nad ydynt ar y rhestr ond rydych yn credu eu bod yn gymwysterau cyfatebol, anfonwch dystiolaeth o'ch cymhwyster gyda'ch cais i'r adran Gwasanaethau Hyfforddi yn VOSA.

Beth nesaf?

- Llenwch ffurflen gais VT78 a'i hanfon i:

  Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr (VOSA),
  Training Services, Booking Section,
  Berkeley House, Croydon Street,
  Bryste, BS5 0DA
  Ffôn: 0300 123 9000

- Ar gyfer dosbarthiadau 1 neu 2 (beiciau modur), rhaid i chi gwblhau'r cwrs 2 ddiwrnod Hyfforddiant i Brofwyr Enwebedig VOSA (NTT MC) yn llwyddiannus a phasio prawf ymarferol yng ngorsaf brofi cerbydau eich noddwr.

- Ar gyfer dosbarthiadau 3,4,5 neu 7, rhaid i chi fynychu a phasio'r cwrs 3 diwrnod Hyfforddiant i Brofwyr Enwebedig VOSA (NTT LV) a phasio prawf ymarferol yng ngorsaf brofi cerbydau'r noddwr.

Yr Asesiad NTT ar gyfer dosbarthiadau 3, 4, 5 neu 7

Os nad oes gennych un o'r cymwysterau / achrediadau a restrwyd dan bwynt 6, ond eich bod yn cydymffurfio â phwyntiau 1,2,3,4 a 5, yna caiff eich enw ei gyflwyno i sefyll yr arholiad Asesu Profwr Enwebedig VOSA (NTTA).

Mae'r arholiad yn para awr a hanner ac yn cynnwys 60 o gwestiynau aml-ddewis. Cwestiynau hollol dechnegol ydynt ac maent yn rhoi sylw i faterion sy'n ymwneud â phrofion MOT ar gerbydau h.y. brêcs, llywio, hongiad, olwynion a theiars, systemau trydanol, corff y car a rhydu, allyriadau pibell wynt, a phynciau cyffredinol.

Cynhelir yr asesiad hwn yn eich Swyddfa Ardal VOSA leol.

VOSA/MOT COMP/2156/JAN 11

Ewch i'n gwefannau:

Cwsmeriaid masnachol
www.businesslink.gov.uk/transport

Modurwyr preifat
www.direct.gov.uk

Gwybodaeth gorfforaethol
www.dft.gov.uk/vosa

Cysylltwch â ni:

E- bost
enquiries@vosa.gov.uk

Rhif Ffôn Cenedlaethol
0300 123 9000*

Dydd Llun i Ddydd Gwener - rhwng
7.30am a 6.00pm (oriau gwaith arferol)

**Codir cyfradd isel am alwadau a ddarperir gan BT. Gall cyfraddau darparwyr eraill amrywio.*